Annwyl Gyfaill

**Cymru Hanesyddol**

Yn nes ymlaen heddiw bydd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith yn cyflwyno datganiad ar yr ymrwymiad maniffesto i greu 'Cymru Hanesyddol'. Golyga hyn ddwyn ynghyd lawer o swyddogaethau masnachol Gwasanaeth Amgylchedd Hanesyddol Cymru (Cadw) ac Amgueddfa Cymru.

Mae'r sefydliadau cenedlaethol hyn, ynghyd ag eraill, yn geidwaid i lawer o dreftadaeth hanesyddol unigryw ein gwlad ac maent yn gyfrifol am gynnig profiadau heb eu hail i ymwelwyr ynghyd â gwasanaethau addysgol o safon uchel ac ymchwil academaidd. Nod Cymru Hanesyddol fydd galluogi'r sector i gydweithio'n agosach wrth hyrwyddo'r atyniadau hyn ac elwa i'r eithaf ar eu posibiliadau masnachol er lles y dreftadaeth.

Yn gynharach eleni cafodd PwC eu comisiynu gan Lywodraeth Cymru i bwyso a mesur opsiynau ar gyfer creu sector treftadaeth hanesyddol mwy cynaliadwy. Bydd Ysgrifennydd y Cabinet yn egluro yn ei ddatganiad ei fod yn cyhoeddi adroddiad llawn PwC a hefyd yn sefydlu grŵp llywio newydd a fydd yn bwrw ymlaen â'r gwaith yma.

Bydd y grŵp llywio yn cynnwys cynrychiolwyr o Cadw, Amgueddfa Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru a hefyd gynrychiolwyr o'r undebau llafur. Mae Justin Albert, Cyfarwyddwr yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yng Nghymru, wedi'i wahodd i gadeirio'r grŵp fel aelod annibynnol.

Rydym yn gwerthfawrogi'r ffaith y gall unrhyw gyhoeddiad ynghylch strwythurau neu weithrediadau masnachol newydd beri ansicrwydd. Rydym yn ysgrifennu atoch i'ch sicrhau ein bod ni, a hefyd gynrychiolwyr yr undebau llafur, o'r farn fod gennym gyfle yn awr i ddiogelu, datblygu a gwella'r sector. Siaradwch â'ch rheolwr llinell neu gynrychiolydd eich undeb llafur os oes gennych unrhyw bryderon.

Gan fod adnoddau cyfyngedig o dan fwy a mwy o bwysau mae'n gwbl allweddol ein bod oll yn cydweithio er mwyn gwerthuso a yw'r strwythurau sy'n sail i'n sector bellach yn addas i'w diben ac a fyddai modd i ni gyflawni mwy drwy gydweithio mwy.

Bydd y grŵp llywio'n goruchwylio'r gwaith o ddatblygu achos busnes a fydd yn cael ei ystyried gan Ysgrifennydd y Cabinet ym mis Ionawr 2017. Bydd y cynigion a fydd yn deillio o'r achos busnes yn destun ymgynghoriad cyhoeddus llawn. Caiff yr ymatebion i'r ymgynghoriad eu hystyried yn ofalus cyn i gyngor terfynol gael ei gyflwyno i Ysgrifennydd y Cabinet.